

Erthygl 15 – Atal, Dehongli a Chyhoeddi'r Cyfansoddiad

15.1 Atal y Cyfansoddiad

- (a) Cyfyngiad ar atal. Ni ellir atal Erthyglau'r Cyfansoddiad hwn. Gall y Rheolau a nodir isod gael eu hatal gan y Cyngor llawn i'r graddau a ganiateir o fewn y rheolau hynny a'r gyfraith.
- (b) Gweithdrefn i atal. Ni chynigir cynnig i atal unrhyw reolau heb rybudd oni bai fod o leiaf hanner cyfanswm y cynghorwyr yn bresennol. Bydd maint a hyd yr ataliad yn gymesur â'r canlyniad sydd i'w sicrhau, gan roi ystyriaeth i ddibenion y Cyfansoddiad a nodir yn Erthygl 1.
- (c) Rheolau y gellir eu hatal. Gellir atal Rheolau Gweithdrefn y Cyngor yn unol ag Erthygl 15.1 i'r graddau a nodir yn Rheol Gweithdrefn y Cyngor 22.

15.2 Dehongli

Ni chaniateir herio rheoliad Cadeirydd y Cyngor ynghylch llunio neu gymhwyso'r Cyfansoddiad hwn neu ynghylch unrhyw rai o drafodion y Cyngor, mewn unrhyw un o gyfarfodydd y Cyngor. Bydd dehongliad o'r fath yn rhoi ystyriaeth i bwrpasau'r Cyfansoddiad hwn, a gynhwysir yn Erthygl 1.

15.3 Cyhoeddi

- (a) Bydd y Prif Weithredwr, yn dilyn cais, yn rhoi copi wedi'i argraffu o'r Cyfansoddiad hwn i aelod etholedig.
- (b) Bydd y Prif Weithredwr yn sicrhau bod y cyfansoddiad ar gael i'w ddarllen yn swyddfeydd y cyngor, mewn llyfrgelloedd, ac ar wefan y Cyngor.

Atodlen 1: Disgrifiad o'r Trefniadau Gweithredol

Mae'r rhannau canlynol o'r Cyfansoddiad hwn yn ffurfio'r trefniadau gweithredol :

1. Erthygl 6 Rheolau Gweithdrefn Craffu;
2. Erthygl 7 Rheolau Gweithdrefn y Bwrdd Gweithredol;
3. Erthygl 10 Trefniadau ar y Cyd;
4. Erthygl 12 Gwneud penderfyniadau a Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth;
5. Rhan 3 Cyfrifoldeb am Swyddogaethau.